**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

16 Medi 2016

Annwyl Syr/Madam

**Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)**

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cynnal ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru). Mae rhagor o fanylion am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ar gael ar wefan y Cynulliad yn:

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15873

Gellir gweld cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn **Atodiad 1.**

**Gwahoddiad i gyfrannu i'r ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan y rhai sydd â buddiant yn y pwnc hwn.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisïau/cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, yn unol â'u polisïau gwybodaeth gyhoeddus. Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i'r ymchwiliad ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor y gwanwyn.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

Clerc y Pwyllgor

Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn **21 Hydref 2016**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn at unrhyw unigolion neu sefydliadau a hoffai gyfrannu i'r ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

**Datgelu gwybodaeth**

Mae gan y Cynulliad bolisi ynghylch datgelu gwybodaeth. Gofalwch eich bod yn ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Neu, mae copi caled o'r polisi hwn i'w gael drwy gysylltu â'r Clerc (Catherine Hunt 0300 200 6347).

Yn gywir,

**Simon Thomas AC**

Cadeirydd

**Atodiad 1 – Cylch Gorchwyl**

Ystyried—

i. egwyddorion cyffredinol y Bil;
ii. unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
iii. a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil
iv. goblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol);
v. priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol).

Ochr yn ochr â'r cylch gorchwyl, gallai ymatebwyr ystyried Rhannau unigol y Bil, yn benodol:

i. Rhwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil;
ii. Gweithredu bandiau a chyfraddau treth a sut i sicrhau y gallant ddelio â newidiadau dilynol a newidiadau eraill ledled y DU;
iii. Agwedd tuag at osgoi treth – gan gynnwys sicrhau bod llif gwybodaeth briodol gan drethdalwyr, cynghorwyr ac Awdurdod Cyllid Cymru yn ogystal â darparu unrhyw ddulliau clirio a sicrhau adnoddau digonol ar gyfer Awdurdod Cyllid Cymru;
iv. Yr eithriadau arfaethedig;
v. Y gostyngiadau arfaethedig;
vi. Sut caiff trafodion preswyl a dibreswyl eu diffinio a'u trin;
vii. Sut caiff cwmnïau, ymddiriedolaethau, sefydliadau dielw a phartneriaethau eu trin o ran darpariaethau a gostyngiadau;
viii. Addasrwydd y pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth yn y Bil (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol);
ix. Goblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol).